Undeb Myfyrwyr PCYDDS
UWTSD Students' Union

# Ymddiriedolwr Marchnata a Masnacheiddio

# DISGRIFIAD O'R RÔL

## Dod Yn Ymddiriedolwr

Ar gampws Caerfyrddin, mae gennym leoliad sydd wedi'i rannu'n ddau. Y Llofft yw gofod cymdeithasol a bar y myfyrwyr ar gampws Caerfyrddin sydd wedi'i leoli ar lawr cyntaf adeilad Undeb y Myfyrwyr, a'r Clwb yw'r clwb ar gampws Caerfyrddin, sydd wedi'i leoli ar lawr gwaelod Adeilad Undeb y Myfyrwyr. Mae lle i 400 o fyfyrwyr yn y lleoliad, gyda phoblogaeth o ychydig dros 300 o fyfyrwyr ar y safle.

Gofod Cymdeithasol Y Llofft yw'r lle i fyfyrwyr fynd y tu allan i ddarlithoedd i gwrdd â ffrindiau, ymlacio, chwarae ychydig o gemau, ac astudio yn rhywle gydag awyrgylch mwy hamddenol. Mae byrddau pŵl (ar y ddau lawr), PlayStation a seddi cyfforddus, ynghyd â gemau bwrdd traddodiadol a llyfrau/DVDs yn ogystal â thenis bwrdd. Mae Bar Myfyrwyr Y Llofft yn gweini diodydd a lluniaeth am brisiau sydd o fewn cyrraedd myfyrwyr. Mae ar agor ar nosweithiau dethol yn ystod yr wythnos ac yn cynnal digwyddiadau o bryd i'w gilydd fel nosweithiau Cwis, Karaoke neu Nosweithiau Meic Agored.

Mae'r Clwb yn lleoliad mawr ar y llawr gwaelod sy'n dod ag awyrgylch clwb i chi, gyda seinyddion pwerus i greu'r gerddoriaeth Pa fath o ddigwyddiadau ydyn ni'n eu cynnal? Meddyliwch am gigs â cherddoriaeth fyw, dawnsfeydd y glas, dawnsfeydd haf, disgos distaw. Mae'r Clwb ar agor ar gyfer digwyddiadau wedi'u cynllunio'n unig, a gellir ei logi'n allanol.

# Prif Gyfrifoldebau

- Sicrhau bod gwaith Undeb y Myfyrwyr yn adlewyrchu ei amcanion, ei genhadaeth a'i werthoedd, a'i fod o fudd i holl fyfyrwyr PCyDDS .
- Penderfynu ar gyfeiriad strategol cyffredinol Undeb y Myfyrwyr a datblygu'r mudiad yn unol ag egwyddorion llywodraethiant da.
- Cynorthwyo â datblygiad Undeb y Myfyrwyr trwy oruchwylio cynllunio strategol clir, wedi'i seilio ar ddealltwriaeth gydlynol o'r amgylchedd y mae'r mudiad yn gweithredu ynddo.
- Sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd effeithiol, cyfrifol ac atebol o fewn anghenion cyfreithiol ac ariannol mudiad elusennol.
- Cynnal goruchwyliaeth gyllidol gadarn a rheoli cronfeydd ariannol ac adnoddau i sicrhau bod y mudiad yn parhau i fod yn hyfyw.

# Dyletswyddau Penodol

- Mynychu o leiaf bum cyfarfod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr bob blwyddyn academaidd. Mae'r opsiynau ar gyfer mynychu'n cynnwys trwy ddulliau electronig gydag un cyfarfod wyneb-yn-wyneb (cyfarfod diwedd blwyddyn ym mis Mehefin bob blwyddyn).
- Ar y cyd ag aelodau eraill y Bwrdd, gosod y cyfeiriad i staff a gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â strategaeth, polisi, cyllid a gweithrediad Undeb y Myfyrwyr.
- Ar y cyd ag aelodau eraill y Bwrdd, gosod amcanion strategol ar gyfer Prif Weithredwr Undeb y Myfyrwyr, ac adolygu ei waith.
- Cyfranogi yn y broses o recriwtio aelodau'r Bwrdd a staff Undeb y Myfyrwyr yn ôl y galw.
- Ymgymryd â phroses sefydlu ac unrhyw hyfforddiant arall fydd yn eich cynorthwyo i gyflawni'r dyletswyddau uchod.
- Darllen yn drylwyr cyn cyfarfodydd yr holl bapurau a anfonir allan i'w trafod a pharatoi syniadau a chyfraniadau.
- Monitro perfformiad Undeb y Myfyrwyr gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol, adroddiadau prosiect a chyfrifon rheoli.
- Cymryd rhan mewn is-bwyllgorau a grwpiau prosiect sy'n berthnasol i'ch arbenigedd (3 chyfarfod y flwyddyn o'r Pwyllgor Marchnata a Masnacheiddio).
- Bod yn rhan o drafodion apeliadau fel sy'n ofynnol gan y ddogfen lywodraethol.
- Asesu, gwerthuso ac amlygu cyfleoedd a gweithgareddau cynhyrchu refeniw ac incwm ar gyfer yr Undeb.
- Cefnogi a rhoi cyngor ar weithredu a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithgareddau cynhyrchu incwm.
- Arwain a chefnogi marchnata er budd gweithgareddau sy'n cynhyrchu incwm.
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a Phennaeth Busnes a Chyllid ar lwybrau addas i gynhyrchu incwm a chyfleoedd marchnata a chyfeiriad strategol.
- Hyrwyddo gwerthoedd a gwaith Undeb y Myfyrwyr, a gweithredu er budd y mudiad bob amser.
- Sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd effeithiol, cyfrifol ac atebol o fewn anghenion cyfreithiol ac ariannol mudiad elusennol.

# Manyleb Y Person

Mae nifer o faterion wedi llesteirio cynnydd datblygu'r lleoliad. Mae'r heriau parhaus yn y dirwedd addysg uwch a'r diwydiant lletygarwch yn ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn. Yn ogystal, mae'r adeilad wedi profi problemau cynnal a chadw.

Fodd bynnag, mae cyfle cyffrous wedi codi nawr lle gall y Lleoliad weithredu fel gofod cymdeithasol i fyfyrwyr sy'n byw ar y campws, ac i ddechrau creu canolfan ar gyfer digwyddiadau bywiog sy'n creu ymdeimlad o gymuned ymhlith myfyrwyr. Gyda llety ar y campws yn llawn, nawr yw'r amser perffaith i feithrin perthynas â'r myfyrwyr a gwneud y lleoliad yn ganolbwynt i fywyd myfyrwyr ar y campws, gan greu ail incwm sefydlog i Undeb y Myfyrwyr y gellir ei ailfuddsoddi mewn gweithgareddau a phrofiadau Myfyrwyr.

Mae Ymddiriedolwr Marchnata a Masnacheiddio yn chwarae rhan hanfodol wrth arwain a goruchwylio is-strategaeth ddylunio a chyfathrebu elusen, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â nodau a gwerthoedd cyffredinol y mudiad. Maent yn darparu cyfeiriad strategol, yn cynnig arbenigedd, ac yn helpu i ehangu cyrhaeddiad yr elusen i gynyddu gweledEdd ac ymgysylltiad o safbwynt marchnata.

Yn fras, mae agwedd fasnacheiddio'r rôl yn canolbwyntio ar ddarparu goruchwyliaeth a chanllawiau strategol i sicrhau cynaladwyedd ariannol a thwf y mudiad trwy weithgareddau masnachol. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth gadarn, bod yn adeiladol ar gyfer unrhyw gynlluniau masnachol a ddatblygir, dadansoddi effeithlonrwydd gweithredol, a sicrhau llywodraethiant ariannol effeithiol ar gyfer y cynlluniau hynny. Bydd yr ymddiriedolwr hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn mesur perfformiad a rheoli risg sy'n gysylltiedig â mentrau masnachol.

Yn y bôn, mae'r Ymddiriedolwr Marchnata a Masnacheiddio yn gweithredu fel pont rhwng cenhadaeth elusennol y mudiad a'i weithgareddau masnachol, gan sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn gadarn yn ariannol, wedi'u halinio'n strategol, ac wedi'u rheoli'n foesegol yn ogystal â'u marchnata'n llwyddiannus.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol ar gyfer y rôl hon yn meddu ar y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad canlynol:

**Brwdfrydedd dros Werthoedd y mudiad:** Dangos brwdfrydedd gwirioneddol dros natur ddemocrataidd, gyfranogol, a dan arweiniad myfyrwyr UM PCyDDS.

**Barn Annibynnol:** Dangos y gallu i lunio a mynegi barn annibynnol pan fo angen, gan ystyried buddiannau gorau'r mudiad a'i aelodau

**Cyfeiriad Strategol:** Gweithio gyda'r Bwrdd a'r rheolwyr i ddatblygu a mireinio dulliau masnachol sy'n cyd-fynd â chenhadaeth a gwerthoedd y mudiad, gan feithrin cynaladwyedd a thwf hirdymor. Cefnogi'r tîm dylunio a chyfathrebu mewnol trwy fod yn 'gyfaill beirniadol' mewn perthynas â datblygu cynllun marchnata a chyfathrebu cynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar farchnata digidol, strategaethau cyfryngau cymdeithasol, a dulliau marchnata traddodiadol.

**Brand Ymgysylltu â Rhanddeiliaid:** Cyfrannu at ddatblygu a chynnal brand adnabyddadwy'r elusen, gan sicrhau ei fod yn cyfleu gwerthoedd ac effaith y mudiad yn effeithiol. Arwain timau Undeb y Myfyrwyr i ehangu ymwybyddiaeth o genhadaeth yr Undeb ymhlith amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys myfyrwyr, partneriaid y Brifysgol, staff, a'r gymuned ehangach.

**Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Moesegol:** Sicrhau bod gweithgareddau marchnata a chyfathrebu tîm y staff yn cydymffurfio â chanllawiau cyfreithiol a moesegol, gan gynnwys rheoliadau diogelu data a chodi arian. Sicrhau bod pob gweithgaredd masnachol yn cydymffurfio â chyfraith elusennol berthnasol, cyfraith cwmnïau, a deddfwriaeth berthnasol arall.

**Cynaladwyedd Ariannol:** Sicrhau llywodraethiant ariannol, monitro a rheoli risg effeithiol, gan gynnwys goruchwylio cyllidebau, cyfrifon a datganiadau ariannol (yn unol â chyfrifoldebau holl ymddiriedolwyr.

**Mesur Perfformiad:** Hyrwyddo mecanweithiau i fesur llwyddiant gweithgareddau masnachol, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau'r mudiad ac yn ychwanegu gwerth at gymuned y myfyrwyr.

**Rheoli Risg:** Gweithio'n rhagweithiol gyda'r Tîm Dylunio a Chyfathrebu a'r Uwch Dîm Rheoli i reoli'r gofrestr risg mewn perthynas â mentrau masnachol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol.

**Cymorth i Bobl:** Darparu arweiniad arbenigol a mentora i'r tîm rheoli, gan feithrin aliniad ac arferion gorau ar draws y mudiad.

**Arbenigedd Marchnata:** Mae cefndir cryf mewn marchnata, cyfathrebu a chyfryngau digidol yn hanfodol.

**Sgiliau Cyfathrebu a Rhyngbersonol:** Mae angen sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol i gydweithio ag ymddiriedolwyr eraill, staff a phartneriaid allanol.

**Dealltwriaeth o'r Sector Elusennol:** Mae profiad yn y sector elusennol neu nid-er-elw yn aml yn ddymunol.

**Craffter Masnachol:** Profiad profedig mewn mentrau masnachol, busnesau newydd, neu sectorau busnes perthnasol.

**Meddwl Strategol:** Y gallu i ddatblygu a gweithredu cynlluniau strategol hirdymor.

**Llythrennedd Ariannol:** Dealltwriaeth gref o reolaeth ariannol, cyllidebu a rheoli risg.

**Sgiliau Dadansoddol:** Y gallu i ddadansoddi data, nodi tueddiadau a gwneud penderfyniadau gwybodus.

**Sgiliau Cyfathrebu:** Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

**Arweinyddiaeth a Mentora:** Y gallu i roi arweiniad a chefnogaeth i'r tîm rheoli.

Un o brif nodweddion diwylliant y Bwrdd yw'r ysbryd o hwyl, ymgysylltiad, a momentwm. Mae'r Bwrdd yn chwilio'n weithredol am ymddiriedolwyr sydd nid yn unig yn croesawu arloesedd ond hefyd sy'n fodlon cymryd ambell risg er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Ag agwedd flaengar yn graidd iddo, mae'n gwerthfawrogi unigolion a fydd yn herio meddwl confensiynol ac yn ysbrydoli datrysiadau creadigol. Y nod yw meithrin amgylchedd lle mae pob Ymddiriedolwr yn teimlo'n llawn egni a'u bod wedi'u grymuso i gymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd.

# Amrywioldeb

Mae Undeb Myfyrwyr PCyDDS yn croesawu ceisiadau gan bawb, waeth beth fo'u hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, cred neu anabledd. Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod, gan ddilyn proses deg a thryloyw. Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, fodd bynnag, gall y mudiad ddefnyddio camau cadarnhaol lle mae ymgeiswyr o grwpiau a dangynrychiolir wedi ymgeisio ar gyfer rôl.

# Disgrifiad o'r Rôl

## Rôl

Ymddiriedolwr Lleyg: Marchnata a Masnacheiddio.

### Yn atebol i

Fwrdd yr Ymddiriedolwyr; Comisiwn Elusennau.

### Cyflog

Rôl wirfoddol ddi-dâl yw hon, ond mae'n gymwys ar gyfer treuliau rhesymol yn unol â pholisi treuliau Undeb y Myfyrwyr.

### Cyfnod y Swydd

3 Blynedd, 2 gyfnod.

### Cysylltiadau Allweddol

Ymddiriedolwyr Sabothol, Myfyrwyr Ymddiriedolwyr, Ymddiriedolwyr Allanol (Lleyg), Prif Weithredwr, Pennaeth Busnes a Chyllid, Pennaeth Gwasanaethau'r Aelodaeth, Rheolwr Llywodraethiant a Gweinyddiaeth.

## Cyfnod y penodiad

Nid oes tâl am y rôl hon, a bydd costau teithio domestig rhesymol, a gytunwyd ymlaen llaw, yn cael eu had-dalu. Mae cyfarfodydd y bwrdd yn para tua thair awr gyda phapurau'n cael eu rhannu'r wythnos cynt i'w darllen ac er mwyn i chi baratoi. Mae cyfarfodydd is-bwyllgorau'n para tua awr. Rydym yn hyblyg o ran amseroedd, ac mae pob cyfarfod yn cael ei gofnodi a'i recordio os yw pobl eisiau dal i fyny oherwydd eu bod wedi colli cyfarfodydd.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

### Lleoliad ac amseroedd

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair i chwe gwaith y flwyddyn. Mae'r is-bwyllgor yn cyfarfod hyd at dair gwaith y flwyddyn. Gellir cynnal yr holl gyfarfodydd hyn yn rhithiol, ac eithrio un cyfarfod Bwrdd wyneb-yn-wyneb ar safle PCyDDS.

## Cyfarfodydd y Bwrdd

- Dydd Iau 16 Hydref o 17:15
- Dydd Mawrth 9 Rhagfyr o 13:00
- Dydd Mercher 18 Chwefror o 17:15
- Dydd Iau 21 Ebrill o 17:15
- Dydd Gwener 25 Mehefin o 14:00 – wyneb-yn-wyneb, ar wahanol gampysau o un flwyddyn i'r llall.

Cynhelir pob cyfarfod ar-lein trwy Microsoft Teams oni nodir yn wahanol.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Marchnata a Masnacheiddio

- Dydd Iau 6 Tachwedd, 10:30 - 12:00
- Dydd Iau 16 Ebrill, 10:30 - 12:00
- Dydd Mawrth 11 Mehefin, 10:30 - 12:00

Fodd bynnag, os byddai'n well gan y cadeirydd gynnal cyfarfodydd dros amser cinio yn hytrach nag ar ôl y 9am i 5pm 'arferol', gellir hwyluso hyn. Cynhelir pob cyfarfod ar-lein trwy Microsoft Teams oni nodir yn wahanol.

# Y Broses Benodi

Gwneir ceisiadau trwy e-bost. Anfonwch eich CV at ein Rheolwr Llywodraethiant a Gweinyddiaeth - mae'r manylion wedi'u rhestru ar ein hysbyseb ar gyfer ymddiriedolwr.

Unwaith y bydd ceisiadau wedi cau, bydd pwyllgor o ymddiriedolwyr yn asesu eich cais yn erbyn y meini prawf a amlinellir ym manyleb y rôl.

Byddwn yn dewis grŵp o'r ymgeiswyr mwyaf addas i wneud cyflwyniad i'r pwyllgor penodi, a fydd wedyn yn gallu gweld y cais llawn. Byddwn bob amser yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi am ganlyniad eich cais.

Gan y bydd y mudiad yn gweld y ceisiadau heb eu golygu, rydym yn cynghori ymgeiswyr i osgoi defnyddio 'gweler CV' neu 'ffoniwch fi i drafod ymhellach' yn eich cais gan y gallai gyfyngu ar eich siawns o symud ymlaen i'r rownd nesaf.

# Cymhwysedd

Mae angen i chi fodloni meini prawf penodol er mwyn gwneud cais am rôl fel Ymddiriedolwr; Rhaid i chi fodloni rheolau cymhwysedd y **Comisiwn Elusennau ar gyfer Ymddiriedolwyr.**

Argymhellir bod pob ymgeisydd yn darllen canllaw'r Comisiwn Elusennau ar fod yn ymddiriedolwr: **The Essential Trustee: Yr hyn sydd angen i chi ei wybod; yr hyn sydd angen i chi ei wneud.**